

Aseiad o'r Effaith ar y Gymraeg

Rhagfyr 2017

Asesiad o'r Effaith ar y Gymraeg

Teitl: Cynnig i Ddeddfu i Ddiddymu'r Amddiffyniad Cosb Resymol	Rhif Cyfeirnod yr Asesiad <i>(i'w llenwi gan Uned y Gymraeg):</i>				
Enw'r unigolyn sy'n llenwi'r ffurflen:	Wendy Thomas				
Dyddiad:	Rhagfyr 2017				
Arweinydd polisi:	Sarah Rhodes				
Manylion cyswllt:	Wendy.thomas2@gov.wales 03000256002				
Math o Raglen/Prosiect <input checked="" type="checkbox"/> Deddfwriaeth					
Costau: Beth yw'r cost oes gyfan a ragwelir ar gyfer y rhaglen/prosiect? Os yn llai na £25k, nid oes angen asesiad llawn bob tro (gweler y canllawiau).					
Llai na £25k	£25 - £49k	£50 - £249k	£250k - £1miliwn	Mwy na £1miliwn	
<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	<input checked="" type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	
O'r uchod, a oes unrhyw gostau sy'n uniongyrchol gysylltiedig â'r Gymraeg? Ni phennwyd unrhyw gostau penodol gan y bydd yr holl ddeunyddiau ymchwil ac ymgyrchu yn ddwyieithog, yn Gymraeg a Saesneg.					
Pa mor hir y disgwylir i'r rhaglen/prosiect redeg?					
Hyd at 1 flwyddyn	Hyd at 2 flynedd	Hyd at 5 mlynedd	Hyd at 10 mlynedd	Mwy na 10 mlynedd	Anhysbys
<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	<input checked="" type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>		<input type="checkbox"/>
Dyddiadau nodedig allweddol ar gyfer y rhaglen/prosiect:					
Gorffennaf 2017: cyhoeddodd Prif Weinidog Cymru ymgynghoriad i'w gynnal ym Mlwyddyn 2 yn yr amserlen ddeddfwriaethol. Bwriedir cyflwyno ym Mlwyddyn 3. 5 Rhagfyr 2017: Cymeradwyodd y Cabinet y ddogfen ymgynghori. 9 Ionawr 2018: Y Gweinidog Plant a Gofal Cymdeithasol i wneud datganiad llafar i lansio'r ymgynghoriad. 9 Ionawr – 2 Ebrill 2018: Cynnal ymgynghoriad ffurfiol.					

Cyflwyno – Blwyddyn 3 o'r Rhaglen Ddeddfwriaethol.

2018-2020 – Cyfnod o fwy o gyfathrebu

CAM 1: CYNLLUNIO

Beth yw nodau ac amcanion y polisi?

Beth yw'r canlyniadau a ddymunir / beth gaiff ei ystyried yn 'llwyddiant'?

Ar 18 Mai 2016, cyhoeddodd Prif Weinidog Cymru fwriad Llywodraeth Cymru i gyflwyno deddfwriaeth i ddiddymu'r amddiffyniad cosb resymol. Yn ei ddatganiad, dywedodd y Prif Weinidog: “Fe gyflwynwn, a hynny'n drawsbleidiol, deddfwriaeth i ddiddymu'r amddiffyniad cosb resymol.”

Rydym wedi llwyr ymrwmo i hawliau plant ers cryn amser, a hynny'n seiliedig ar Gonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn. Yn unol â hynny, amcan cyffredinol y deddfwriaeth arfaethedig yw cefnogi hawliau plant. Mae'r Bil arfaethedig yn rhan o becyn ehangach o fesurau sydd â'r nod o ysgogi newid yn agweddau'r cyhoedd tuag at y ffordd y mae plant a phobl ifanc yn cael eu magu a'u disgyblu, a hynny drwy wneud cosb gorfforol yn annerbyniol a thrwy hyrwyddo opsiynau amgen cadarnhaol. Fel Llywodraeth, rydym wedi buddsoddi'n sylweddol mewn rhaglenni rhianta ledled Cymru ac mewn ymgyrchoedd gwybodaeth megis 'Magu Plant: Rhowch Amser Iddo' i gefnogi rhieni i wneud y gorau y gallan nhw.

Rydym yn gwybod bellach y gall cosb gorfforol gael effaith hirdymor negyddol ar gyfleoedd bywyd plant ac rydym hefyd yn gwybod ei bod yn gosb aneffeithiol. Roedd cosbi plant yn gorfforol yn cael ei dderbyn fel arfer normal gan genedlaethau'r gorffennol, ond gwyddwn ei fod yn cael ei ystyried fwyfwy'n rhywbeth llai derbyniol a bod rhieni'n teimlo'n llai cyffyrddus yn cosbi'n gorfforol. Rydym am i'r deddfwriaeth gyflymu newid i ymddygiadau rhieni wrth iddynt ddisgyblu eu plant.

Pa ddewisiadau polisi sydd wedi'u hystyried?

a

Beth fydd yr effeithiau os *na* fydd y polisi'n cael ei weithredu?

Mae'r opsiynau polisi canlynol wedi cael eu hystyried:

1. Gwneud Dim. Byddai hyn yn golygu na fyddai'r Llywodraeth yn diddymu'r amddiffyniad cosb resymol yn y gyfraith yng Nghymru. Felly, ni fyddai unrhyw deddfwriaeth yn cael ei chyflwyno a byddai'r trefniadau cyfredol yn parhau a ni fyddai plant yn cael eu diogelu mewn cyfraith rhag cosb gorfforol.
2. Cyflwyno deddfwriaeth i ddiddymu'r amddiffyniad cosb resymol yng Nghymru. O wneud hyn, *ni fyddai* Llywodraeth Cymru'n cynnig creu trosedd newydd, ond

<p>yn hytrach, ddiddymu amddiffyniad mewn perthynas â'r troseddau ymosod a churo, sy'n bodoli eisoes mewn cyfraith yng Nghymru. Effaith hyn fyddai gwahardd rhieni neu bobl sydd <i>in loco parentis</i> yng Nghymru rhag cosbi plant yn gorfforol.</p> <p>Dim ond dau opsiwn sydd wedi'u hystyried gan mai'r unig ffordd o sicrhau y gwarchodir hawliau plant, ac felly'r unig ffordd o gyflawni'r amcan polisi, yw diddymu'r amddiffyniad cosb resymol, a'r unig ffordd i wneud hynny yw newid y gyfraith.</p>
<p>A yw'r rhaglen yn dangos cysylltiad clir â strategaeth Llywodraeth Cymru ar gyfer y Gymraeg - laith fyw: laith byw?</p>
<p>Nac oes, nid oes cysylltiad sylweddol rhwng y Bil a strategaeth Llywodraeth Cymru ar gyfer y Gymraeg.</p>
<p>Beth yw'r effeithiau (cadarnhaol a/neu negyddol) ar y Gymraeg yr ydych wedi'u nodi yn y cam cynllunio cychwynnol?</p> <p>h.y. siaradwyr Cymraeg, cymunedau Cymraeg, addysg cyfrwng Cymraeg, dysgwyr Cymraeg, gwasanaethau sydd ar gael yn Gymraeg?</p>
<p>Nid oes effeithiau cadarnhaol na negyddol ar y Gymraeg o ganlyniad i'r Bil hwn. Amcan y Bil hwn yw diogelu hawliau plant a hyrwyddo rhianta cadarnhaol. Y nod yw cyflymu newid i agweddau rhieni tuag at y ffordd y maent yn magu ac yn disgyblu eu plant a phobl ifanc drwy wneud cosb gorfforol yn annerbyniol a thrwy hyrwyddo opsiynau amgen cadarnhaol.</p>
<p>Pwy yw'r rhanddeiliaid? A yw anghenion siaradwyr a dysgwyr Cymraeg yn cael sylw? I ba raddau y mae grwpiau buddiant Cymraeg yn debygol o ymateb yn gadarnhaol i'r cynigion?</p>
<ul style="list-style-type: none"> - Rhieni, Gofalwyr a Gwarcheidwaid - Plant a Phobl Ifanc - Rhanddeiliaid, Grwpiau Cynrychioliadol a Phartneriaid sydd â lefelau amrywiol o ddiddordeb, buddiant a dylanwad. - Y Cyhoedd - Y Cyfryngau <p>Bydd y ddogfen ymgynghori a'r holl ddeunydd cyhoeddusrwydd yn cael eu cynhyrchu'n ddwyieithog.</p>
<p>Pan na chwblhawyd asesiad, neu pan na chanfuwyd effeithiau, nodwch fanylion llawn at ddibenion cadw cofnod. (Gellid defnyddio hwn yn Nhribiwnlys y Gymraeg yn y dyfodol)</p>
<p>Pa gamau gweithredu/gwaith pellach sydd wedi'u nodi yn y cam cynllunio cychwynnol? ee. gofynion data, angen am adolygiad gan gymheiriaid, ymgyssylltu allanol â grwpiau</p>

Cymraeg, rhestrï rhanddeiliaid neu ymgynghori, cysylltu ag Uned y Gymraeg am gyngor)?

Caiff yr ymgynghoriad ei gyhoeddi'n ddwyieithog i sicrhau bod anghenion a gofynion ieithyddol yn cael ystyriaeth ddyledus.
Wrth ddatblygu'r ddeddfwriaeth, bydd angen cydgysylltu'n rheolaidd â rhanddeiliaid allweddol, a hynny yn Gymraeg. Cynigiwn ymgysylltu â grwpiau megis Mudiad Ysgolion Meithrin a Mentrau Iaith.
Mae terminoleg yn y maes hwn yn eithaf cymhleth, felly trafodwn y derminoleg Gymraeg gyda rhanddeiliaid fel y rhai a nodwyd uchod i sicrhau ei bod yn ddealladwy ac yn ystyried amrywiaethau rhanbarthol.
Caiff dogfennau cysylltiedig eu cyhoeddi'n ddwyieithog. Mae hyn yn cynnwys yr Asesiad Effaith Rheoleiddiol, yr Asesiad o'r Effaith ar Hawliau Plant a'r Asesiad o'r Effaith ar y Gymraeg.

CAM 2: PENNU AC ASESU EFFEITHIAU

Crynodeb o'r Asesiad Effaith

Crynowch yr asesiad manwl a gynhaliwyd ynghyd â'r sgoriau a ddynodwyd.

Effeithiau cadarnhaol:

Caiff y cynigion effaith niwtral ar y Gymraeg.
Fodd bynnag, bydd darparu gwybodaeth yn y dewis iaith yn sicrhau bod rhanddeiliaid allweddol yn cael y cyfle i ddeall yn llwyr y goblygiadau sydd ynghlwm wrth ddiddymu'r amddiffyniad cosb resymol.

Effeithiau negyddol:

Caiff y cynigion effaith niwtral ar y Gymraeg.
Mae effeithiau posib ar gyrff y sector cyhoeddus ac, yn sgil hynny, ar ddarparu gwasanaethau yn cael eu hystyried fel rhan o'r broses ymgynghori. Nid oes unrhyw effeithiau penodol ar y Gymraeg wedi'u pennu, ond caiff hyn ei ystyried ymhellach fel rhan o'r broses ymgynghori.

Cyfleoedd i hyrwyddo'r Gymraeg e.e. cynnydd o ran statws, y defnydd o wasanaethau Cymraeg, y defnydd o'r Gymraeg o ddydd i ddydd, y defnydd o'r Gymraeg yn y gweithle?

Bydd cyfleoedd i esbonio'r ddeddfwriaeth ar gael yn Gymraeg. Bydd hyn yn rhoi cyfle i siaradwyr Cymraeg ddefnyddio'r iaith yn y gwaith ac yn rhoi'r hyder iddynt esbonio'r ddeddfwriaeth newydd yn eu dewis iaith.

Tystiolaeth/data a ddefnyddiwyd, gan gynnwys proffil demograffig, wrth ystyried yr effeithiau:

Amherthnasol

Beth yw'r effaith gyffredinol debygol a ragwelir ar y Gymraeg os bydd y polisi hwn yn cael ei ddatblygu, ar sail yr asesiad effaith/asesiad risg?	Cadarnhaol: <input type="checkbox"/> Negyddol: <input type="checkbox"/> Niwtral: <input checked="" type="checkbox"/> Anhysbys: <input type="checkbox"/>
Penderfyniad yn dilyn yr Asesiad	1. Dim newid sylweddol <input checked="" type="checkbox"/> 2. Addasu'r polisi er mwyn gwella effeithiau <input type="checkbox"/> 3. Parhau â'r polisi gyda mesurau lliniaru <input type="checkbox"/> 4. Rhoi'r gorau i'r polisi a chael gwared arno <input type="checkbox"/>
<p>Os ydych wedi ateb 2, 3 neu 4 uchod, atebwch y canlynol: Sut y byddwch chi'n ymdrin â'r effeithiau hyn er mwyn gwella'r canlyniadau i'r Gymraeg? Manylion am fesurau lliniaru / pwyntiau gweithredu / dewisiadau amgen sydd wedi'u mabwysiadu er mwyn lleihau'r effeithiau negyddol a chynyddu'r canlyniadau cadarnhaol:</p>	
<p>Os ydych yn ymgysylltu neu'n ymgynghori, beth yw eich cynlluniau? Pa gwestiynau ydych yn dymuno gofyn i randdeiliaid am yr Asesiad o'r Effaith ar y Gymraeg a materion yn ymwneud â'r Gymraeg?</p>	
<p>Caiff yr ymgynghoriad ar y ddeddfwriaeth arfaethedig i ddiddymu'r amddiffyniad cosb resymol ei gynnal rhwng 9 Ionawr a 2 Ebrill 2018. Bydd dogfennau'r ymgynghoriad, gan gynnwys fersiynau hawdd i'w darllen a fersiynau i bobl ifanc, ar gael yn ddwyieithog ar wefan Llywodraeth Cymru, yn ogystal â chopïau caled dwyieithog. Caiff digwyddiadau cyhoeddus a digwyddiadau i randdeiliaid, oll yn ddwyieithog, eu cynnal yn 2018 hefyd.</p> <p>Yn ogystal â chwestiynau manwl am y cynnig deddfwriaethol, mae'r ymgynghoriad yn cynnwys cwestiwn am sut gallai'r cynnig effeithio ar y Gymraeg. Nid oes unrhyw effeithiau negyddol wedi'u pennu hyd yma.</p>	
<p>CAM 3: AR ÔL YMGYNGHORI; PARATOI AR GYFER CYHOEDDI, MONITRO A GWERTHUSO</p>	
<p>Ar ôl ymgynghori, pa newidiadau ydych wedi'u gwneud i fynd i'r afael ag unrhyw faterion a godwyd mewn perthynas â'r Gymraeg?</p>	
<p>Amherthnasol</p>	
<p>Sut byddwch yn monitro'r effeithiau parhaus wrth weithredu'r polisi?</p>	

Caiff materion a gofynion y Gymraeg eu hystyried yn barhaus mewn perthynas â phob cam allweddol yn hynt y cynnig ac yna wrth ei roi ar waith a'i orfodi.

Amlinellwch sut byddwch yn parhau i nodi'r effeithiau wrth fonitro a gwerthuso yn y dyfodol?

Trafod ac ystyried gofynion fel y maent yn codi ac amlinellu unrhyw faterion/problemau yn yr asesiad hwn, fel bo'r angen.

Unrhyw sylwadau eraill – canlyniadau parhaus yn deillio o werthusiadau, effeithiau sy'n dod i'r amlwg

4. Datganiad

Arweinydd polisi:

****Dilêwch fel sy'n briodol:***

***Mae'r polisi hwn yn effeithio ar yr iaith Gymraeg. Pan ganfuwyd effeithiau negyddol neu gyfleoedd a gollwyd, mae'r diwygiadau a'r camau priodol wedi eu rhoi ar waith.**

Enw:

Sarah Rhodes

Adran:

Addysg a Gwasanaethau Cyhoeddus

Dyddiad(au):

Rhagfyr 2017

Llofnod:

Dyddiadau adolygu: I'w adolygu'n barhaus drwy gydol datblygiad y ddeddfwriaeth ac yn ystod hynt y Bil drwy Gynulliad Cenedlaethol Cymru os fydd hynny'n gymwys.

ARDYSTIAD AC ADOLYGIAD YR UWCH SWYDDOG CYFRIFOL

Rwyf yn fodlon bod yr Asesiad o'r Effaith ar y Gymraeg yn adlewyrchiad cywir o'r rhaglen/prosiect yn y cam hwn o ddatblygiad. Trwy lofnodi, gallaf gadarnhau bod Safonau'r Gymraeg wedi cael y sylw priodol. Byddaf yn ail-asesu'r rhaglen/prosiect ar adegau allweddol trwy oes y rhaglen/prosiect, gan gynnwys adolygiadau polisi.

Llofnodwyd (Uwch Berchennog Cyfrifol)	Dyddiad
Llofnodwyd (Uwch Berchennog Cyfrifol)	Dyddiad adolygu
Llofnodwyd (Uwch Berchennog Cyfrifol)	Dyddiad adolygu
Llofnodwyd (Uwch Berchennog Cyfrifol)	Dyddiad adolygu